CONSUMER CODE FOR HOME BUILDERS

Cod Defnyddwyr ar gyfer Adeiladwyr Cartref

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gofynion gorfodol y Cod Defnyddwyr y mae'n ofynnol i Adeiladwyr Cartrefi eu dilyn

Ail Rifyn – Ionawr 2010

Cynnwys

Ystyron geiriau 3

Cyflwyniad 4

Gwybodaeth Bellach 4

Cwmpas 5

Gofynion y Cod Defnyddwyr 6

1 Mabwysiadu'r Cod 6

2 Gwybodaeth – cyn cytundeb 6

3 Gwybodaeth – cyfnewid cytundebau 7

4 Gwybodaeth – yn ystod preswyliad 7

5 Cwynion ac anghydfod 7

Atodiad A – Cynllun Datrys Anghydfod annibynnol y Cod Defnyddwyr 8

Ystyron geiriau

Yn y ddogfen hon, mae gan y geiriau canlynol ystyr arbennig:

- **Adeiladwr Cartref** – adeiladwr neu ddatblygwr Cartrefi newydd neu rai sydd newydd eu haddasu ar gyfer eu gwerthu i'r cyhoedd, ac sydd wedi cofrestru gyda Chorff Gwarant Cartref.

- **Archebu** – Pan fydd Prynwr Cartref ac Adeiladwr Cartref yn gwneud datganiad ysgrifenedig o fwriad ar y cyd (yn amodol ar gytundeb ac os oes taliad wedi ei dalu neu beidio) i brynu a gwerthu Cartref. Mae i **Archebwyd** yr ystyr cyfatebol.

- **Asiant** – unigolyn, ffyrm neu gwmni a ddefnyddir gan Adeiladwr Cartref i ymdrin ag unrhyw fater ar ran Adeiladwr Cartref (er enghraifft, asiant tai neu gontractwr).

- **Cartref** – eiddo a gofrestrwyd gan Adeiladwr Cartrefi gyda Chorff Gwarant Cartref i gael yswiriant Gwarant Cartref, ac eithrio'r rhai a restrir yn y Cwmpas ar Dudalen 5.

- **Cod Defnyddwyr neu'r Cod** – set o ofynion i'w mabwysiadu gan Adeiladwyr Cartrefi.

- **Corff Gwarant Cartref** – unrhyw sefydliad sydd:

  - yn cadw cofrestr o adeiladwyr a datblygwyr;
  - yn darparu yswiriant Gwarant Cartref;
  - wedi cytuno i gefnogi'r Cod Defnyddwyr ar gyfer Cynllun Adeiladwyr Cartref;
  - sydd wedi ymgymryd â'r gwaith o weithredu'r Cod.

  Ceir manylion am y Cyrff Gwarant Cartref sy'n cyfranogi yn www.consumercodeforhomebuilders.com

- **Cynllun Datrys Anghydfod** – proses annibynnol a sefydlwyd er mwyn ymdrin ag anghydfod o dan y Cod nad yw'n dod o dan yswiriant Gwarant Cartref y Corff Gwarant Cartref.

- **Cytundeb Gwerthu, Cyfnewid Cytundeb, Cwblhau Cyfreithiol** – y ddogfen gyfreithiol a'r cau ffurfiol a ddefnyddir wrth werthu eiddo.

  Yn yr Alban, caiff y camau hyn eu hadnabod fel **Llythyr Swyddogol yr Adeiladwr**, **Cyfnewid Llythyr Swyddogol** a **Dyddiad Mynediad** a dylid eu darllen felly drwy gydol y ddogfen.

- **Gwarant Cartref** – gwarant sydd ag yswiriant y tu cefn iddo er mwyn amddiffyn Prynwyr Cartrefi.

- **Prynwr Cartref** – unigolyn sy'n Archebu neu'n prynu Cartref, ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y Cwmpas ar dudalen 4. Ar gyfer Cartrefi a Archebwyd neu a brynwyd ar y cyd gan ddau neu fwy o bobl, bydd hawliau'r Prynwr Cartref ar y cyd.

Cyflwyniad

1 Daw'r Cod Defnyddwyr i rym ar y 1af Ebrill 2010. Mae'n nodi gofynion gorfodol y mae'n rhaid i bob Adeiladwr Cartref eu bodloni wrth farchnata a gwerthu Cartrefi ac yn eu gwasanaeth cwsmeriaid ar ôl gwerthu.

2 Pwrpas y Cod yw sicrhau fod Prynwyr Cartrefi:

- yn cael eu trin yn deg;
- yn gwybod pa safonau gwasanaeth y gellir eu disgwyl;
- yn derbyn gwybodaeth ddibynadwy yn sail i'w penderfyniadau;
- yn gwybod sut i gael mynediad at drefniadau datrys anghydfod cyflym a rhad os ydynt yn anfodlon.

3 Mae'r Cod yn gymwys i bob Prynwr Cartref a Chartrefi fel y nodir yn y Cwmpas isod ar dudalen 5.

4 Mae'r Cyrff Gwarant Cartref wedi cytuno i'w gwneud hi'n ofynnol i'w holl adeiladwyr cofrestredig fabwysiadu a chydymffurfio â'r Cod fel amod o'u cofrestriad. Os bydd Adeiladwr Cartrefi yn torri amodau'r Cod yn ddifrifol, gall Cyrff Gwarant Cartref weithredu amrediad o sancsiynau, gan gynnwys eu symud oddi ar gofrestr y Corff Gwarant Cartref perthnasol a'u heithrio o bob cofrestr a gaiff ei rhedeg gan Gyrff Gwarant Cartref eraill sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cod.

5 Gall Prynwyr Cartrefi sy'n meddwl fod ganddynt anghydfod oherwydd bod Adeiladwr Cartrefi wedi methu â bodloni gofynion y Cod, gyfeirio eu hanghydfod at Gynllun Datrys Anghydfod annibynnol. Gweler Atodiad A am fanylion.

6 Cynhelir arolygon er mwyn gwirio ydy'r Cod yn gweithio'n dda ac i fesur bodlonrwydd defnyddwyr. Wrth gynnal yr arolygon hyn, cydymffurfir ag adrannau perthnasol y Ddeddf Amddiffyn Data.

7 Er mwyn sefydlu pa mor dda y mae'r Cod yn cael ei gymhwyso, neu a oes angen ei newid neu ei ddiweddaru, gellir hefyd cynnal:

- archwiliadau ar hap;
- arolygon cwsmeriaid cudd;
- adolygiadau ac asesiadau o adborth a chwynion bodlonrwydd cwsmeriaid ;
- hyfforddiant ar gyfer Adeiladwyr Cartrefi.

8 Nid oes unrhyw beth yn y Cod sy'n effeithio ar hawliau cyfreithiol presennol Prynwyr Cartrefi.

Gwybodaeth Bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach, gan gynnwys dogfennau'r cod a rheolau'r cynllun, ar wefan y Cod Defnyddwyr: **www.consumercodeforhomebuilders.com**.

Cwmpas

Wrth ddarllen y ddogfen hon cofiwch gadw mewn cof y darpariaethau a'r cyfyngiadau canlynol:

1 Mae'r Cod yn gymwys i bob Prynwr Cartref sy'n Archebu i brynu Cartref newydd neu un sydd newydd ei addasu ar y 1af Ebrill 2010 neu ar ôl hynny, ac sydd wedi ei adeiladu gan Adeiladwr Cartrefi o dan amddiffyniad yswiriant un o'r Cyrff Gwarant Cartref.

2 Mae gofynion y Cod yn weithredol o'r 1af Ebrill 2010.

3 Bwriedir y Cod, ar gyfer cwynion sy'n codi ac a wneir yn ysgrifenedig i'r Adeiladwr Cartrefi o fewn dwy flynedd i ddyddiad cychwyn y sicrwydd yswiriant Gwarant Cartref, yn unig.

4 Caiff ail Brynwyr Cartrefi neu brynwyr dilynol fantais o Ofynion y Cod, ond ddim ond o ran materion ôl-werthu yr adroddir amdanynt o fewn dwy flynedd i ddyddiad cychwyn yr Yswiriant Gwarant Cartref.

5 Nid yw'r Cod yn berthnasol i:

- eiddo ail-law (er enghraifft, cartrefi a gymerwyd gan Adeiladwyr Cartrefi fel rhan werthiant a'u hailwerthu);
- eiddo sydd wedi ei gaffael gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;
- eiddo sydd wedi ei gaffael gan gyrff corfforaethol a phartneriaethau ac eraill at ddibenion buddsoddi;
- eiddo gaiff ei adeiladu gan hunan adeiladwyr ar gyfer eu gwaith eu hunain;
- eiddo gaiff ei adeiladu o dan dystysgrifau dylunwyr.

6 Nid yw'r Cod na'r Cynllun Datrys Anghydfod perthynol yn berthnasol i o:

- geisiadau anafiadau personol;
- colli gwerth eiddo neu ddifetha;
- ceisiadau'n ymwneud â'r tir a drosglwyddir a'i hawl cofrestredig;
- cais lle mae swm yr iawndal a hawliwyd yn fwy na chyfyngiadau'r Cynllun Datrys Anghydfod.

7 Dylid cyfeirio materion y mae cynlluniau datrys anghydfod neu ombwdsmon eraill yn ymdrin â hwy at y sefydliadau perthnasol. Mewn achosion o'r fath, bydd y cynlluniau eraill hyn yn cael blaenoriaeth dros y Cod hwn a'r Cynllun Datrys Anghydfod perthynol .

Gofynion y Cod Defnyddwyr

1 Mabwysiadu'r Cod

1.1 Mabwysiadu'r Cod

Mae'n rhaid i Brynwyr Cartrefi fabwysiadu egwyddorion a chanllawiau arferion da'r Cod.

1.2 Sicrhau fod y Cod ar gael

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi arddangos y Cod a rhoi copi, yn ddi-dâl, i gwsmeriaid sy'n gofyn amdano ac i bob Prynwr Cartref sy'n archebu Cartref.

Dylai'r Adeiladwr Cartrefi hefyd, roi gwybod i'w gwsmeriaid fod rhagor o ganllawiau ar gael a sut y gallant gael y rhain.

1.3 Gwasanaeth Cwsmeriaid

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi gael systemau a gweithdrefnau addas i sicrhau y gall fynd ati'n ddibynadwy ac yn gywir i fodloni'r ymrwymiadau o ran gwasanaeth, gweithdrefnau a

1.4 Staff gwasanaeth cwsmeriaid sydd â'r hyfforddiant priodol

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi ddarparu hyfforddiant addas i'r holl staff sy'n ymdrin â Phrynwyr Cartrefi ynglŷn â'u cyfrifoldebau tuag at gwsmeriaid a'r hyn y mae'r Cod yn ei olygu i'r cwmni a'i gyfarwyddwyr.

1.5 Gwerthu a hysbysebu

Mae'n rhaid i weithgarwch gwerthu a hysbysebu fod yn glir ac yn onest.

2 Gwybodaeth – cyn cytundeb

2.1 Gwybodaeth cyn prynu

Mae'n rhaid rhoi digon o wybodaeth cyn prynu i Brynwyr Cartrefi i'w helpu i wneud penderfyniadau prynu addas sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r wybodaeth gynnwys:

- cytundeb Archebu ysgrifenedig;
- eglurhad o'r yswiriant Gwarant Cartref;
- disgrifiad o unrhyw wasanaethau rheoli a sefydliadau y bydd y Prynwr Cartref yn ymrwymo iddynt ac amcan o'r gost.

Hefyd, os nad yw Cartref wedi ei gwblhau hyd yma, mae'n rhaid i'r wybodaeth gynnwys:

- llyfryn neu gynllun dibynadwy yn dangos sut mae wedi ei osod allan, ymddangosiad a safle plot y Cartref;
- rhestr o gynnwys y Cartref;
- safonau adeiladu'r Cartref.

2.2 Gwybodaeth gyswllt

Mae'n rhaid dweud wrth Brynwyr Cartrefi sut yr ymdrinnir â'u cwestiynau a phwy y dylent gysylltu â hwy wrth werthu, prynu a chwblhau'r Cartref.

2.3 Yswiriant gwarantiad

Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy i Brynwyr Cartrefi am y warant gydag yswiriant yn gefn iddi a ddarperir ar y Cartref.

2.4 Iechyd a diogelwch ymwelwyr â datblygiadau sy'n cael eu hadeiladu

Mae'n rhaid rhoi gwybod i Brynwyr Cartrefi am y rhagofalon iechyd a diogelwch y dylent eu cymryd wrth ymweld â datblygiad sy'n cael ei adeiladu.

2.5 Gwybodaeth cyn cytundeb

Mae'n rhaid i Adeiladwyr Cartrefi gynghori Prynwyr Cartrefi i apwyntio cynghorydd cyfreithiol proffesiynol i gyflawni agweddau ffurfiol prynu Cartref ac i gynrychioli eu buddiannau.

2.6 **Archebu**

Mae'n rhaid rhoi cytundeb Archebu i Brynwyr Cartrefi sy'n nodi'n glir beth yw amodau'r Archebu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- swm y tâl Archebu;
- yr hyn sy'n cael ei werthu;
- y pris prynu;
- sut a pha bryd y bydd y cytundeb Archebu'n dod i ben;
- am ba hyd y mae'r pris yn ddilys;
- amcangyfrif o'r gost a natur unrhyw wasanaethau rheoli y mae'n rhaid i'r Prynwr cartref dalu amdanynt.

Mae'n rhaid ad-dalu'r tâl Archebu os caiff cytundeb Archebu ei ganslo. Mae'n rhaid dweud wrth y Prynwr cartref am unrhyw ddidyniadau y gellir eu gwneud.

Tra bydd y cytundeb Archebu mewn grym, ni ddylai'r Adeiladwr Cartrefi gychwyn ar gytundeb Archebu newydd neu gytundeb gwerthu gyda chwsmer arall am yr un Cartref.

3 Gwybodaeth – cyfnewid cytundebau

3.1 **Y cytundeb**

Mae'n rhaid i delerau ac amodau'r cytundeb gwerthu :

- fod yn glir ac yn deg ;
- gydymffurfio â'r Telerau Annheg yn Rheoliadau Cytundebau Defnyddwyr 1999;
- nodi'n glir yr hawliau terfynu cytundeb.

3.2 ***Amseru'r adeiladu, y cwblhau a'r trosglwyddo***

Mae'n rhaid i'r Prynwr Cartref gael gwybodaeth ddibynadwy a realistig ynglŷn â pha bryd y gellir disgwyl cwblhau'r gwaith o adeiladu'r Cartref, dyddiad y Cwblhau Cyfreithiol, a dyddiad trosglwyddo'r cartref.

3.3 **Hawliau terfynu cytundeb**

Mae'n rhaid dweud wrth Brynwyr Cartrefi am eu hawl i derfynu'r cytundeb.

3.4 **Blaendaliadau a thaliadau ymlaen llaw ar gytundeb**

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi egluro'n glir sut y caiff blaendaliadau cytundeb Prynwyr Cartrefi eu hamddiffyn a sut yr ymdrinnir ag unrhyw daliadau eraill ymlaen llaw.

4 Gwybodaeth – yn ystod preswyliad

4.1 **Gwasanaeth ar ôl gwerthu**

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi ddarparu gwasanaeth ar ôl gwerthu i'r Prynwr Cartref sy'n hawdd cael mynediad ato, ac egluro'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnwys, gyda phwy i gysylltu, a pha sicrwydd a gwarantau sy'n gymwys i'r Cartref.

4.2 **Iechyd a diogelwch ar gyfer Prynwyr Cartrefi mewn datblygiadau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu**

Mae'n rhaid dweud wrth Brynwyr Cartrefi am y rhagofalon iechyd a diogelwch y dylent eu cymryd tra byddant yn byw mewn datblygiad lle mae gwaith adeiladu'n parhau.

5 Cwynion ac anghydfod

5.1 **Ymdrin â chwynion**

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi gael system a gweithdrefnau ar gyfer derbyn, delio a datrys galwadau gwasanaeth a chwynion Prynwyr Cartrefi.

Mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi roi gwybod i'r Prynwr Cartref am hyn, ac ynglŷn â'r trefniadau datrys anghydfod a weithredir fel rhan o'r Cod hwn, yn ysgrifenedig.

5.2 **Cydweithredu gyda chynghorwyr proffesiynol**

Mae'r rhaid i'r Adeiladwr Cartrefi gydweithredu gyda chynghorwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso'n briodol ac wedi eu penodi gan y Prynwr Cartref i ddatrys anghydfod.

Atodiad A

Cynllun Datrys Anghydfod annibynnol y Cod Defnyddwyr

Caiff pob anghydfod ei ddatrys gan ddefnyddio proses farnu, bydd beirniad hyfforddedig yn adolygu cyflwyniadau gan y ddwy ochr ac yn cyhoeddi dyfarniad yn seiliedig ar ei ganlyniadau ef neu hi. Byddant yn penderfynu a oes gan Brynwr Cartref anghydfod cyfreithlon neu a ydyw wedi dioddef colled ariannol o ganlyniad i fethiant yr Adeiladwr Cartrefi i gydymffurfio â gofynion y Cod Defnyddwyr.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r broses hon. Rhoddir gwybodaeth fanylach gyda phob cais am ddyfarniad ac mae ar gael hefyd ar wefan y Cod Defnyddwyr.

1. Yn gyntaf, mae'n rhaid i Brynwr Cartref gwyno wrth ei Adeiladwr Cartref a rhoi cyfle i'r Adeiladwr Cartref ymchwilio a datrys pethau.

2. Os nad yw'r Prynwr Cartref yn fodlon gydag ymateb yr Adeiladwr Cartref, dylai'r Prynwr Cartref gysylltu â'r Corff Gwarant Cartref a gyhoeddodd y warant ar eu Cartref.

3. Bydd y Corff Gwarant Cartref yn:

   3.1 ymdrin â'r gŵyn o dan delerau eu polisi Gwarant Cartref; neu

   3.2 pan fo'r gŵyn yn syrthio y tu allan i gynllun datrys anghydfod y Corff Gwarant Cartref ei hun, cynnig cyfle i'r Perchennog Cartref gyfeirio eu cwyn at ddarparwr Cynllun Datrys Anghydfod. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno'r gŵyn o fewn tri mis i ddyddiad ymateb terfynol yr Adeiladwr Cartref i'r gŵyn wreiddiol, neu o fewn tri mis ar ôl dyddiad y gŵyn wreiddiol, pa bynnag yw'r olaf.

4. Os bydd Prynwr Cartref yn penderfynu cyfeirio cwyn at ddarparwr y Cynllun Datrys Anghydfod, bydd y broses farnu ganlynol yn digwydd:

   4.1 Os yw'r Prynwr Cartref yn dymuno defnyddio'r cynllun hwn, mae'n rhaid iddynt gwblhau ffurflen gais a'i hanfon at ddarparwr y Cynllun Datrys Anghydfod gyda'u datganiad o dystiolaeth a thâl cofrestru achos o £100 gyda TAW yn ychwanegol[1]. Mae'n rhaid i'w datganiad o dystiolaeth gynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwyn a chopïau o dderbynebau neu dystiolaeth arall o wariant.

   4.2 Bydd darparwr y Cynllun Datrys Anghydfod yn gofyn i'r Adeiladwr Cartref ymateb i ddatganiad o dystiolaeth y Prynwr Cartref. Gall yr Adeiladwr Cartref ar y cam hwn ddatrys y gŵyn heb gael dyfarniad ffurfiol – gelwir hyn yn 'drefniant buan' a'r gost i'r Adeiladwr Cartref fydd tâl achos gostyngol £100 gyda TAW[1] yn ychwanegol.

   4.3 Os nad oes 'trefniant buan' yn digwydd, mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartref gyflwyno ei ymateb i ddatganiad o dystiolaeth y Prynwr Cartref ynghyd â thaliad o £300 gyda TAW[1] yn ychwanegol. Bydd y Prynwr Cartref yn derbyn copi o ymateb yr Adeiladwr Cartref er gwybodaeth, ac fe gant hwy ymateb os ydynt yn dymuno. Ar y cam hwn, ni chaniateir unrhyw gwynion newydd pellach gan y Prynwr Cartref yn ymwneud â'r dyfarniad hwn.

   4.4 Bydd y barnwr yn ystyried y ddau gyflwyniad ac yn penderfynu a oes gan y Prynwr Cartref anghydfod cyfreithlon neu beidio ag a ydyw wedi dioddef colled ariannol o ganlyniad i fethiant yr Adeiladwr Cartref i gydymffurfio â'r Cod Defnyddwyr. Mewn unrhyw achos, disgwylir i'r Adeiladwr Cartref a'r Prynwr Cartref fod wedi ymddwyn yn rhesymol a rheoli eu costau.

[1] Mae taliadau achos yn amodol ar adolygiad blynyddol

4.5 Bydd y barnwr yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd ac yn ei anfon at y ddwy ochr. Gall y penderfyniad fod yn ddyfarniad perfformiad (lle mae'r Adeiladwr Cartref yn gorfod gwneud rhywbeth) neu'n ddyfarniad ariannol (lle mae'n rhaid i'r Adeiladwr Cartref dalu arian i'r Prynwr Cartref) neu gyfuniad o'r ddau. Gwerth uchaf o'r dyfarniad cyfun o dan y cynllun barnu hwn yw £15,000 yn cynnwys TAW.

4.6 Os yw'r barnwr yn gwneud dyfarniad, gallant hefyd wneud dyfarniad disgresiwn am anghyfleustra, hyd at uchafswm o £250. Byddai'r dyfarniad uchafswm o £15,000 yn cynnwys unrhyw ddyfarniad am anghyfleustra. Ni all Prynwr Cartref hawlio dyfarniad am anghyfleustra yn unig.

4.7 Bydd y barnwr yn defnyddio ei ddisgresiwn wrth ystyried a ddylai ddyfarnu iawndal am unrhyw anghyfleustra i Brynwr Cartref allai fod wedi dioddef o ganlyniad i'r ffordd yr ymdriniodd yr Adeiladwr Cartref gyda'u cwyn.

4.8 Bydd y barnwr hefyd yn penderfynu a ddylai'r Adeiladwr Cartref dalu tâl cofrestru achos y Prynwr cartref yn ôl iddo neu beidio. Bydd hyn yn ychwanegol at y dyfarniad y sonnir amdano yn 4.5 uchod.

4.9 Ni ellir apelio yn erbyn dyfarniad y barnwr; rhaid i'r Prynwr Cartref ei dderbyn neu ei wrthod.

5. O dan reolau cofrestru, bydd y Cyrff Gwarant yn ei gwneud yn ofynnol i bob adeiladwr cofrestredig barchu unrhyw ddyfarniad a wneir yn eu herbyn o dan y Cynllun Datrys Anghydfod. Os yw'r Prynwr Cartref yn derbyn y dyfarniad, bydd y llysoedd fel arfer yn cydnabod hyn fel tystiolaeth o ddilysrwydd cais Prynwr Cartref.

6. Gall Prynwr Cartref wrthod derbyn y dyfarniad, ond os gwnân nhw hynny mae unrhyw weithredu cyfreithiol sy'n dilyn yn debygol o gymryd y penderfyniadau a wnaed mewn unrhyw ddyfarniad blaenorol i ystyriaeth.

7. Mae Adeiladwr Cartref yn parhau i fod yn agored i ddyfarniad, hyd yn oed os cant eu symud oddi ar gofrestr Corff Gwarant Cartref.

Noder: Mae'r Cynllun Datrys Anghydfod hwn gan y Cod Defnyddwyr yn annibynnol ar y Cyrff Gwarant Cartref. Nid yw dyfarniadau a wneir o dan Gynllun Datrys Anghydfod annibynnol y Cod Defnyddwyr wedi eu hyswirio o dan gynlluniau Gwarant Cartref y Cyrff Gwarant Cartref.

Nodiadau

Nodiadau

COD DEFNYDDWYR ar gyfer y CYNLLUN ADEILADWYR CARTREFI
Ysgrifenyddiaeth y Cod Defnyddwyr – o dan ofal:

NHBC House
Davy Avenue
Knowlhill
Milton Keynes
MK5 8FP

www.consumercodeforhomebuilders.com